



Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ynys Wen

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
31/03/2026	15/04/2026 Cofnod: 317/2526	15/04/2026

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn nodi rôl, aelodaeth, trefniadau gwaith a trefn adrodd Pwyllgor Ynys Wen a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Y Fali.

1. Diben y Pwyllgor

Mae Pwyllgor Ynys Wen ("y Pwyllgor") wedi ei sefydlu gan Gyngor Cymuned Y Fali i oruchwylio, adolygu a monitro materion sy'n ymwneud â Mynwent Ynys Wen, ac i wneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

2. Statws y Pwyllgor

Pwyllgor ymgynghorol y Cyngor yw'r Pwyllgor, oni bai bod y Cyngor Llawn wedi dirprwyo swyddogaeth benodol iddo yn ysgrifenedig.

3. Pwerau

Nid oes gan y Pwyllgor bwerau cyffredinol i wneud penderfyniadau. Gall ystyried materion sy'n ymwneud â'r fynwent, archwilio ac adolygu cyflwr y safle, a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo.

Ni chaiff y Pwyllgor ymrwymo i gcontractau, gwario arian, newid ffioedd, cymeradwyo gwaith, na diwygio polisïau oni bai bod y Cyngor Llawn wedi rhoi'r awdurdod hwnnw'n benodol.

4. Cwmpas Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ynghylch:

- rheolaeth, cynnal a chadw ac ymddangosiad mynwent Ynys Wen;
- materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r fynwent;
- asesiadau risg a mesurau rheoli risg;
- rheolau a rheoliadau'r fynwent;
- amserlen ffioedd a thaliadau'r fynwent;
- diogelwch cofebion, materion ffiniau, mynediad, arwyddion a chyflwr y safle;
- cwynion, materion gweithredol ac unrhyw faterion a godir gan y Clerc, cynghorwyr, trefnwyr angladdau neu aelodau'r cyhoedd;
- gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio a chynlluniau gwella arfaethedig;
- gofynion cyllidebol sy'n ymwneud â'r fynwent; a

j. unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r fynwent a gyfeirir at y Pwyllgor gan y Cyngor Llawn.

5. Iechyd a Diogelwch / Risg

Bydd y Pwyllgor yn monitro materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r fynwent ac yn adolygu asesiadau risg y fynwent yn rheolaidd. Bydd unrhyw asesiadau risg ac unrhyw gamau gweithredu a argymhellir yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Llawn.

6. Ffioedd a Thaliadau

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Amserlen Ffioedd a Thaliadau'r Fynwent o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

7. Rheolau a Rheoliadau

Bydd y Pwyllgor yn adolygu Rheolau a Rheoliadau'r Fynwent yn rheolaidd ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn os ystyrir bod angen eu diwygio.

8. Goruchwyliaeth Weithredol

Gall y Pwyllgor oruchwyllo materion dydd i ddydd y fynwent drwy'r Clerc a thrafod materion gweithredol arferol.

Fodd bynnag, bydd pob penderfyniad sylweddol, gwaith anarferol, ymrwymiad ariannol a mater polisi yn parhau'n amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn oni bai bod awdurdod wedi'i ddirprwyo'n ffurfiol.

9. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Pwyllgor wedi ei chyfyngu i uchafswm o bum Cynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu, oni bai bod y Cyngor Llawn yn penderfynu fel arall. Gall Cadeirydd y Cyngor gael ei benodi i'r Pwyllgor fel rhan o'r aelodaeth hon.

Bydd yr aelodaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor.

10. Cadeirydd y Pwyllgor

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Mynwent yn cael ei benodi gan y Cyngor Llawn yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny os oes angen.

10.1 Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol o gyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn penodi un o'u plith i weithredu fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw, a bydd yr aelod hwnnw'n cadeirio'r cyfarfod am ei hyd.

11. Cworwm

Cworwm cyfarfod y Pwyllgor fydd tri aelod.

12. Cyfarfodydd

Fel arfer, bydd y Pwyllgor yn cynnal dau gyfarfod arferol y flwyddyn, fel rheol ym mis Mawrth a mis Medi, neu ar adegau eraill y bydd y Cyngor Llawn neu'r Pwyllgor yn penderfynu arnynt.

Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir galw cyfarfod brys ar fyr rybudd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol.

13. Rhybudd o Gyfarfodydd ac Agenda

Bydd y materion i'w trafod mewn cyfarfod wedi'u cyfyngu i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Bydd yr agenda a'r rhybudd o'r cyfarfod yn cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor gan roi o leiaf dri diwrnod clir o rybudd.

Bydd rhybudd o'r cyfarfod yn cael ei roi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol a threfniadau cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys manylion ynghylch sut i gael mynediad i'r cyfarfod.

14. Presenoldeb a Chyfranogiad y Cyhoedd

Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn agored i'r cyhoedd a'r wasg, ac eithrio pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu'n briodol i eithrio busnes cyfrinachol neu eithriedig yn unol â'r gyfraith.

Gall y Pwyllgor wahodd trefnwyr angladdau, contractwyr, swyddogion, cynghorwyr arbenigol neu unigolion eraill i fynychu os bydd hynny'n helpu i ystyried materion sy'n ymwneud â'r fynwent.

Bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn rhoi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol wneud sylwadau ar unrhyw fusnes sydd i'w drafod, oni bai y byddai gwneud hynny'n amharu ar redeg y cyfarfod yn effeithiol, ac yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor.

15. Cyfarfodydd o Bell ac Aml-leoliad

Gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn gyfan gwbl o bell, neu ar sail aml-leoliad, yn unol â threfniadau cyfarfodydd cyhoeddedig y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol cyfredol.

16. Datganiadau o Fuddiant

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cadw at God Ymddygiad y Cyngor ac yn datgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus yn unol â'r Cod hwnnw a Rheolau Sefydlog y Cyngor.

17. Clerc / Ysgrifennydd

Bydd Clerc y Cyngor yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor ac yn cofnodi trafodion, argymhellion a phenderfyniadau pob cyfarfod, gan gynnwys enwau'r rhai sy'n bresennol, unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, ac unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

18. Cofnodion

Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu'n brydlon i holl aelodau'r Pwyllgor.

Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod, ac o fewn saith diwrnod gwaith fan bellaf, bydd y Cyngor yn cyhoeddi nodyn electronig o'r cyfarfod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor. Bydd hwn yn cynnwys enwau'r aelodau oedd yn bresennol, unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, unrhyw ddatganiadau o fuddiant ac unrhyw benderfyniadau a wnaed, yn amodol ar beidio â chyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig.

Gellir hefyd gyhoeddi cofnodion drafft neu gofnodion nad ydynt eto wedi'u cadarnhau yn dilyn y cyfarfod.

Caiff y cofnodion eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned Llawn i'w cymeradwyo. Ar ôl eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn, bydd y cofnodion cymeradwy yn cael eu cyhoeddi'n electronig, neu bydd y cofnod a gyhoeddwyd yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

19. Adrodd i'r Cyngor Llawn

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor Llawn drwy gyfrwng cofnodion, argymhellion neu adroddiadau ysgrifenedig ar wahân, fel bo'n briodol.

Y Cyngor Llawn fydd yn penderfynu a ddylid derbyn, diwygio neu wrthod unrhyw argymhelliad gan y Pwyllgor.

20. Materion Ariannol

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

Bydd unrhyw wariant, dyfynbris, proses dendro neu fater cytundebol sy'n ymwneud â'r fynwent yn cael ei drin yn unol â'r Rheoliadau hynny, a bydd unrhyw benderfyniad angenrheidiol yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn oni bai fod awdurdod dirprwyedig yn bodoli.

21. Cydymffurfiaeth a Llywodraethu

Wrth gyflawni ei rôl, bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â:

- a. Rheolau Sefydlog y Cyngor;
- b. Rheoliadau Ariannol y Cyngor;
- c. Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- d. polisïau'r Cyngor sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, diogelu data a chwynion; a
- e. unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i awdurdodau claddu a chynghorau lleol yng Nghymru.

22. Hyfforddiant

Dylai aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â hyfforddiant perthnasol, yn enwedig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad, iechyd a diogelwch, llywodraethu ariannol a rheolaeth mynwentydd, yn unol â chynllun hyfforddi'r Cyngor.

23. Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn a gellir ei ddiwygio drwy benderfyniad y Cyngor Llawn.